
# Bwletin y Farchnad HCC
Medi 2020

**Mae cig eidion wedi gwerthu'n dda yng ngwledydd Prydain yn ystod y chwe mis diwethaf, wrth i fwy o lawer o bobl brynu'r toriadau drutaf fel stêcs yn ystod y cyfnod hwnnw. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar y data gan Kantar Worldpanel.**

Mae'r ystadegau a gafwyd gan Kantar Worldpanel ar gyfer y 24 wythnos yn diweddu 09 Awst yn dangos fod cig eidion wedi gwerthu'n dda yn y siopau a'r archfarchnadoedd yn ystod y cyfnod pan fu cyfyngiadau symud, a'r un fu'r patrwm drwy gydol misoedd yr haf. Yn ystod y cyfnod hwn, gwerthwyd 148,000 tunnell o gig eidion, sef 23.1% yn fwy nag yn ystod y cyfnod cyfatebol y llynedd. Parhau'n sefydlog wnaeth y pris cyfartalog, a oedd yn golygu y cafodd 23.4% yn fwy ei wario – oherwydd y cynnydd sylweddol yn y cyfaint a werthwyd.

### Crynodeb o werthiannau manwerth cig eidion ym Mhrydain
(24 wythnos hyd at 9 Awst 20)




*Ffynhonnell: Kantar Worldpanel*

Y rheswm am y cynnydd hwn oedd bod cig eidion yn cael ei brynu'n amlach yn ystod y cyfnod hwn (cynnydd o 11.5% i 8.9 gwaith y prynwr). Yn ogystal â phrynu cig eidion yn amlach, roedd pobl yn prynu ychydig yn fwy o gig eidion (+4.9%) bob tro. Cafodd cig eidion ei brynu gan dros dri chwarter (81.6%) o'r aelwydydd ym Mhrydain yn ystod y 24 wythnos dan sylw, sef 4.3% yn fwy na blwyddyn yn gynharach. Mae'r ystadegau hyn yn awgrymu fod nifer o ddefnyddwyr newydd wedi defnyddio cig eidion.


## Toriadau Cig Eidion

Yn gyffredinol, mae cig eidion wedi gwneud yn dda yn ystod y misoedd diwethaf. Cafwyd y cynnydd mwyaf yn y cig eidion a werthwyd yn ystod mis Mawrth (+40.5%), mis Ebrill (+20.5%) a mis Mai (+27.1%), mewn cymhariaeth â'r cyfnodau cyfatebol yn 2019*. O fewn cyfanswm y cynnydd yn y cyfaint, mae'r ystadegau'n dangos fod briwgig wedi gwerthu'n dda yn ystod mis Mawrth (+45.2% o'r naill flwyddyn i'r llall). Yn ystod y misoedd diwethaf, wrth i werthiant cig eidion fynd yn debycach i'r hyn a ddisgwylir yr adeg yma o'r flwyddyn, cafodd mwy o stêcs eu gwerthu. Yn ystod y 4 wythnos hyd at 19 Ebrill, gwerthwyd 8.2% yn fwy o stêcs nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl, ac erbyn y 4 wythnos yn diweddu 17 Mai, roedd hyn wedi cynyddu i 43.8%.


O edrych ar y 24 wythnos hyd at 09 Awst, gwerthwyd 23.1% yn fwy o stêcs na'r llynedd – a'r prif reswm am hyn oedd eu bod yn cael eu prynu'n amlach. Cafwyd gostyngiad o 2.5% ym mhris cyfartalog stêcs yn ystod y cyfnod, sy'n awgrymu y gallai ymgyrchoedd hyrwyddo fod wedi helpu i hybu'r gwerthiant. Mae darnau i'w rhostio hefyd wedi gwneud yn dda yn ystod y cyfnod o 24 wythnos; cafwyd 10.7% yn fwy o brynwyr, a golygodd hynny fod 13.4% yn fwy o gig wedi ei brynu. Mae briwgig yn boblogaidd dros ben am fod modd ei ddefnyddio mewn sawl ffordd yn y gegin. Gwerthwyd 23.6% yn fwy ohono, ac roedd yn cyfrif am 55.4% o'r holl gig eidion a werthwyd yn y siopau a'r archfarchnadoedd.


**yn seiliedig ar ddata manwerth diwedd-4-wythnos ym Mhrydain gan Kantar Worldpanel.*

### Perfformiad Manwerth Toriadau Cig Eidion



## Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr





**Cynnyrch Cig Eidion yn y DU**


### GWARTHEG

Roedd y pris cyfartalog ar gyfer yr holl wartheg dethol yng Nghymru a Lloegr yn 202.7c/kg ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 19 Medi, sef 1.5c yn is nag yn yr wythnos flaenorol. Er gwaethaf y gostyngiad bychan o'r naill wythnos i'r llall, mae'r prisiau'n dal i fod yn uwch o dipyn (23.4c) na blwyddyn yn gynharach, a bron 15c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2015-19: 188.2c/kg). Yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 19 Medi, roedd y prisiau pwysau marw cyfartalog am fustych yng Nghymru a Lloegr yn 363.3c/kg, sef 11.2c yn is nag yn yr wythnos flaenorol, ond 44.3c yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y pris pwysau marw am heffrod yn 362.7c/kg (-2.4c ar yr wythnos flaenorol). Y pris am deirw ifainc oedd 353.4c/kg (+0.1c), a'r pris am fuchod difa oedd 241.1c/kg (-2.8c).

Lladdwyd cyfanswm o 224,600 o wartheg yn lladd-dai'r DU ym mis Awst, sef 0.5% yn llai nag ym mis Awst 2019. Mae hyn yn golygu y cafodd 0.3% yn fwy o wartheg na'r llynedd (cyfanswm o 1.83 miliwn) eu lladd yn ystod wyth mis cyntaf 2020. Cafwyd cynnydd o 0.8% (i 161,300) yng nghyfanswm y gwartheg dethol a laddwyd yn ystod y mis. O fewn y cyfanswm hwn, gwelwyd y cynnydd mwyaf o'r naill flwyddyn i'r llall yn nifer yr heffrod (+5.3%). Lladdwyd 4.8% yn fwy o wartheg llawn-dwf nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu y gallai'r prisiau da a barhaodd yn ystod mis Awst fod wedi helpu i gynnal nifer y gwartheg a anfonwyd i'w lladd. Golygodd hynny gynnydd o 1.3% o'r naill flwyddyn i'r llall yn y cig eidion a gynhyrchwyd.

## Prisiau wyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru





**Cynnyrch Cig Defaid yn y DU**


### DEFAID

Mae'r Dyfynbris Ansawdd Safonol pwysau byw am ŵyn dethol wedi gostwng ychydig yn ystod yr wythnosau diwethaf, ond mae'n dal i fod yn uwch nag yw'n arfer bod. Yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 19 Medi, roedd y pris cyfartalog o 204.0c/kg ond 0.1c yn is nag yn yr wythnos flaenorol. Roedd yn 41.1c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2019, a 40.5c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2015-19: 163.5c/kg). Cafwyd wythnos dda arall ar gyfer prisiau mamogiaid difa yn y marchnadoedd da byw yng Nghymru. Cynyddodd y pris cyfartalog 7.0c o'r naill wythnos i'r llall, a golygodd hynny fod y pris y ddafad o £55.05 yn £9 yn uwch nag oedd yn yr wythnos gyfatebol y llynedd. Yn yr wythnos yn diweddu 19 Medi, roedd pris pwysau marw am ŵyn ym Mhrydain yn 463.7c/kg, sef 0.6c yn is nag yn yr wythnos flaenorol.

Cyfanswm yr holl ddefaid a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Awst oedd 1.4miliwn, sef 4.7% yn llai nag yn y mis cyfatebol y llynedd. Lladdwyd nifer fawr o ŵyn yn ystod mis Awst y llynedd yn sgil y galw oherwydd yr ŵyl Foslemaidd, Eid al-Adha). Eleni, cynhaliwyd yr ŵyl ddiwedd mis Gorffennaf, ac felly dyna pryd cafwyd y galw cynyddol. Roedd pwysau carcasau'r ŵyn dethol (19.2kg) yn 0.1kg yn ysgafnach ar gyfartaledd ym mis Awst eleni. Yn dilyn hyn a'r ffaith fod llai wedi cael eu lladd, cynhyrchwyd 5.6% yn llai o gig defaid yn ystod mis Awst nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd.

## Pris cyfartalog moch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain




**Cynnyrch Porc yn y DU**

### MOCH

Roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) ym Mhrydain yn 164.4c/kg yn yr wythnos yn diweddu 12 Medi, sef 0.5c yn is nag yn yr wythnos flaenorol, ond 8.9c yn uwch nag yr un adeg blwyddyn diwethaf. Dyma'r 9fed wythnos yn olynol i'r prisiau ostwng. Mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu fod prisiau is mewn gwledydd Ewropeaidd eraill yn dylanwadu ar y prisiau yma yn y DU. Roedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg ym Mhrydain yn yr wythnos yn diweddu 12 Medi yn £52.69 y mochyn (+5.6% ar y flwyddyn flaenorol) ac roedd y pris cyfartalog am berchyll 7kg yn £43.45 y mochyn (+8.2%).

Cyfanswm yr holl foch a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Awst oedd 908,400, sef 5.2% yn llai nag yn y mis cyfatebol y llynedd. Y rheswm pennaf am y gostyngiad o'r naill flwyddyn i'r llall oedd gostyngiad o 5.3% yn nifer y foch heb fagu a laddwyd yn ystod y mis. Hefyd, lladdwyd ychydig yn llai (-0.9%) o hychod a baeddod yn ystod mis Awst. Roedd pwysau cyfartalog carcasau'r moch heb fagu yn ystod y mis, sef 86.4kg, yn 1.8kg yn drymach. Er gwaethaf y carcasau trymach, cynhyrchwyd 3.2% yn llai o borc ym mis Awst nag yn yr un mis y llynedd – am y cafodd llai o foch eu lladd.